



# Gweithio ar neu ymweld ag un o safleoedd y Senedd






## Canllawiau i Ymwelwyr, gan gynnwys unigolion allanol, contractwyr/y wasg

Statws Risg Covid-19 Comisiwn y Senedd: Isel  
Diweddarwyd: Ionawr 2023

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r mesurau rheoli iechyd a diogelwch sydd ar waith ar draws ystâd y Senedd i sicrhau iechyd, diogelwch a llesiant defnyddwyr yr adeiladau tra byddan nhw ar y safle. Gofynnwn i holl ddefnyddwyr yr adeilad ddilyn y mesurau rheoli hyn, gan gynnwys y mesurau i sicrhau arfer diogel mewn perthynas â Covid-19.

Wrth ddod i ystâd y Senedd rydych chi'n cytuno i ddilyn y mesurau a ganlyn:

 <p>Mynd i un o safleoedd y Senedd</p>	<p>Pan fyddwch chi'n cyrraedd, bydd y tîm Diogelwch yn eich cofrestru a chynnal gwiriad. Cofiwch am y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>▪ Caniatewch oddeutu 15 munud ar gyfer y broses ddiogelwch;</li><li>▪ Mae'n bosibl y bydd ciw byr y tu allan i'r adeilad cyn mynd i mewn os ydych yn dod i ddigwyddiad a gynhelir yn y Senedd;</li><li>▪ Peidiwch â dod â bag mawr os oes modd, a pheidiwch â dod â llawer o eiddo gyda chi, gan fod ein holl ymwelwyr a'u heiddo yn cael eu sganio, fel sy'n digwydd mewn maes awyr.</li><li>▪ Rhaid rhoi gwybod i'r swyddogion diogelwch cyn eich ymweliad os ydych yn bwriadu dod ag eitemau mwy.</li></ul>
 <p>Cymorth Cyntaf</p>	<p>Ar ystâd y Senedd, mae nifer o swyddogion cymorth cyntaf hyfforddedig, ystafelloedd cymorth cyntaf a pheccynnau cymorth cyntaf ynghyd â diffibrilwyr i'w defnyddio ar y safle. Os bydd angen cymorth cyntaf arnoch yn ystod eich ymweliad, rhowch wybod i'ch cyswllt yn y Senedd a/neu'r</p>

	<p>Swyddogion Diogelwch a fydd yn gallu'ch helpu. Mewn argyfwng, dylech ffonio 999.</p>
 <p>Rhoi gwybod am ddiwyddiadau</p>	<p>Mae'r Senedd wedi ymrwymo i gadw pawb sy'n defnyddio'r adeilad yn ddiogel. Os byddwch yn cael anaf neu os bydd damwain bron â digwydd tra byddwch ar yr ystâd, rhowch wybod i'ch cyswllt yn y Senedd a/neu'r Swyddogion Diogelwch ar unwaith a gallant lenwi ffurflen ddiwyddiad ar eich rhan.</p> <p>Gallwch hefyd roi gwybod i'r tîm Iechyd, Diogelwch a Llesiant drwy e-bostio <a href="mailto:wellbeing@senedd.cymru">wellbeing@senedd.cymru</a></p>
 <p>Gadael yr adeilad ar frys os bydd larwm tân yn canu</p>	<p>Os bydd yn rhaid gadael yr adeilad oherwydd argyfwng, bydd larwm tân yn canu ar ystâd y Senedd.</p> <p>Rhowch wybod inni pe bai angen unrhyw gymorth ychwanegol arnoch wrth adael yr adeilad mewn argyfwng drwy gysylltu â <a href="mailto:EFMserviceteam@senedd.cymru">EFMserviceteam@senedd.cymru</a> a gallwn greu Cynllun Personol Gadael mewn Argyfwng (PEEP) i chi.</p> <p>Os bydd larwm yn canu, ewch i'r allanfa agosaf; bydd eich cyswllt yn y Senedd, warden tân neu swyddog diogelwch yn dangos y ffordd allan o'r adeilad ac i'r man ymgynnull.</p>
 <p>Covid-19 / clefydau trosglwyddadwy</p>	<p>Ni ddylech fynd i ystâd y Senedd os yw'r canlynol yn berthnasol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gennych chi symptomau Covid-19 o unrhyw fath (tymheredd uchel, peswch cyson neu newid yn y gallu i flasau neu arogl) NEU; rydych chi'n sâl am unrhyw reswm</li> </ul>
 <p>Hylendid dwylo</p>	<p>Yn ystod eich ymweliad gofynnwn ichi olchi'ch dwylo yn rheolaidd a/neu ddefnyddio hylif diheintio dwylo, sydd ar gael mewn mannau cyffredin drwy'r adeilad. Mae arwyddion wedi'u gosod i atgoffa defnyddwyr yr adeilad i wneud hyn.</p>
 <p>Gorchuddion wyneb</p>	<p>Er nad oes gofyniad cyfreithiol mwyach i chi wisgo gorchudd wyneb mewn mannau cyhoeddus dan do, mae Llywodraeth Cymru yn cynghori bod gwisgo gorchudd wyneb tra'n sâl yn fesur iechyd cyhoeddus pwysig.</p>

 <p>Awyru</p>	<p>Mae awyru naturiol yn allweddol i leihau lledaeniad clefydau trosglwyddadwy. Caiff defnyddwyr yr adeilad eu hannog i agor ffenestri lle bo modd er mwyn caniatáu awyru naturiol. Bydd awyr iach yn ychwanegu at yr aer sy'n dod i mewn i'r swyddfeydd ac ardaloedd eraill drwy'r systemau mecanyddol sydd ar waith, ac mae adeilad y Senedd yn adeilad sy'n cael ei awyru'n naturiol beth bynnag.</p>
 <p>Rhoi gwybod am bryder</p>	<p>Gobeithio na fydd gennych unrhyw bryderon pan fyddwch yn dod i'r safle. Fodd bynnag, os ydych yn gweld unrhyw beth ar y safle sy'n mynd yn groes i'r disgwyliadau a nodir yn y canllaw hwn, cymerwch y camau a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Rhowch wybod i'r unigolyn dan sylw ar unwaith, os ydych yn teimlo y gallwch wneud hynny. Dylech wneud y canlynol hefyd:</li> <li>▪ Rhoi gwybod i'ch rheolwr llinell cyn gynted â phosibl, NEU;</li> <li>▪ Roi gwybod i'r Rheolwr Diogelwch ar Ddyletswydd ar y diwrnod, NEU;</li> <li>▪ <u>E-bostio'r tîm Iechyd, Diogelwch a Llesiant.</u></li> </ul>
 <p>Rhagor o wybodaeth</p>	<p>Os oes gennych gwestiwn nad yw wedi cael sylw yn ddogfen hon, siaradwch â'ch cyswllt yn y Senedd, neu cysylltwch â'r tîm Iechyd, Diogelwch a Llesiant.</p>